**Datganiad Caethwasiaeth Fodern**

Mae S4C yn cyhoeddi'r datganiad caethwasiaeth fodern yma'n wirfoddol yn gysylltiedig ag adran 54 y Ddeddf Caethwasiaeth Fodern 2015.

Mae S4C yn gwrthwynebu caethwasiaeth a masnachu pobl yn llwyr. Pwrpas y datganiad yma yw i gyfleu gwerthoedd S4C a'i ymrwymiad i sicrhau nad yw caethwasiaeth na masnachu pobl yn digwydd o fewn ein cadwyni cyflenwi.

**Amdanom ni**

Ein swyddogaeth, fel darlledwr gwasanaeth cyhoeddus, yw darparu gwasanaethau teledu a digidol gynulleidfaoedd Cymru a thu hwnt trwy gyfrwng y Gymraeg. Ariennir cyllideb gyhoeddus S4C drwy ffi'r drwydded deledu.

Er nad oes gofyniad ar S4C i gyhoeddi datganiad caethwasiaeth fodern o dan adran 54 y Ddeddf Caethwasiaeth Fodern 2015, rydym yn ymrwymedig i wneud y datganiad gwirfoddol hwn i ddangos ein hymrwymiad i egwyddorion masnachu moesegol, ac i amlinellu'r prosesau sydd gennym er mwyn mynd i'r afael â chaethwasiaeth fodern a masnachu pobl o fewn ein sefydliad ac yn ein cadwyni cyflenwi.

Rydym yn cyflogi dros 100 o bobl ac yn gweithio gyda chyflenwyr ar draws Cymru, y Deyrnas Unedig a thu hwnt. Mae gennym swyddfeydd yng Nghaerfyrddin, Caernarfon a Chaerdydd.

Mae'n cadwyni cyflenwi yn cynnwys:

- cyflenwyr darlledu a technegol
- comisiynu cynnwys gan gwmnïau cynhyrchu
- cytundebau rheoli gweithle

Rydym yn dibynnu ar nifer fawr o gyflenwyr trydydd parti wrth gomisiynu ein cynnwys ac i gyflenwi deunydd a gwasanaethau, ac yn disgwyl iddynt weithredu yn unol â'n hegwyddorion a'n gwerthoedd.

**Prosesau diwydrwydd dyladwy**

I'n cynorthwyo i adnabod a monitro'r risg o gaethwasiaeth a masnachu pobl o fewn ein cadwyni cyflenwi mae gennym brosesau addas mewn lle. Mae'r rhain yn cynnwys camau i leihau'r risgiau perthnasol yn ein cadwyni cyflenwi gan sicrhau bod ein cyflenwyr yn arddangos y prosesau sydd ganddyn nhw mewn lle i gydymffurfio â'n hymrwymiad ni.

**Ymrwymiad ein cyflenwyr i'n gwerthoedd**

Mae ein Cod Safonau Cyflenwyr yn gosod dyletswydd benodol ar ein cyflenwyr i sicrhau eu bod yn mynd i'r afael â'r broblem o gaethwasiaeth fodern o fewn eu sefydliadau eu hunain, yn ogystal â'u cadwyni cyflenwi.

**Hyfforddiant**

I sicrhau lefel uchel o ddealltwriaeth o risgiau caethwasiaeth fodern a masnachu pobl yn ein cadwyni cyflenwad yn ein busnes, darperir hyfforddiant i staff S4C. Rydym hefyd yn disgwyl i'n cyflenwyr ddangos eu bod yn hyfforddi eu staff hwythau.

**Casgliad**

Ni chodwyd unrhyw broblemau yn gysylltiedig â chaethwasiaeth fodern ar draws ein sefydliad yn y flwyddyn ariannol ddiwethaf.  Byddwn yn parhau i sicrhau nad oes unrhyw gaethwasiaeth na masnachu pobl yn digwydd yn ein cadwyni cyflenwi ac i adolygu ein prosesau wrth fynd i'r afael â hynny fel sy'n briodol.

*Gwneir y datganiad gwirfoddol hwn am gaethwasiaeth a masnachu pobl mewn cysylltiad ag adran 54(1) y Ddeddf Caethwasiaeth Fodern 2015, ar gyfer y flwyddyn ariannol ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2026.*

**Geraint Evans**

**Prif Weithredwr**

Mehefin 2026